YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 50/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 03/05/2023

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau

## Crynodeb (Ysgolion)

1. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau mewn ysgolion yn unig. I gael y canfyddiadau ar gyfer addysg gynnar mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant, gan gynnwys y £13m ychwanegol a weinyddir trwy'r Grant Gwella Addysg, gweler y crynodeb 3-7 cysylltiedig a'r prif adroddiad.

2. Lansiwyd y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) ym mis Awst 2020 i helpu ysgolion trwy gynyddu capasiti staff. Cafodd y capasiti ychwanegol hwn ei gynllunio er mwyn rhoi cymorth ychwanegol dros dro i ddysgwyr 3-16 oed â blaenoriaeth er mwyn eu galluogi i ailgynefino â'r system ysgolion, cyflawni'r cynnydd mae ganddynt hawl iddo, ac adfer hyder a gallu dysgu. Dosbarthwyd £59m yn 2020/21, gan gynnwys £3m ym mis Mawrth 2021 ar gyfer lleoliadau gofal plant. Erbyn mis Gorffennaf 2022 roedd £165.5m wedi cael ei ddosbarthu.

3. Prif nod y gwerthusiad hwn yw rhoi tystiolaeth fel sail i benderfyniadau ynghylch ymateb presennol Llywodraeth Cymru wrth helpu ysgolion a lleoliadau gofal plant i oresgyn effeithiau'r tarfu ar ddysgwyr a achoswyd gan COVID-19.

**Argymhellion**

| | |
|---|---|
| **a.** | Parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu angen, fel y caiff ei ddiffinio ar lefel ysgol, ar y cyd â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol. |
| **b.** | Parhau i ganiatáu gweithredu hyblyg ar lefel ysgol i ymdrin ag anghenion mewn ffordd effeithiol gyda’r capasiti ychwanegol sydd ar gael. |
| **c.** | Parhau i ddefnyddio canllawiau clir. |
| **d.** | Rhoi mwy o wybodaeth ymlaen llaw i ysgolion i’w galluogi i gynllunio’n fwy hirdymor. |
| **e.** | Creu cysylltiadau agosach gyda chynlluniau eraill i gynyddu niferoedd staff. Er enghraifft, rhaglenni sy’n cefnogi mynediad i weithluoedd y sectorau gofal plant ac ysgolion. |
| **f.** | Mynd ati o ddifrif i annog cydweithio a gweithio mewn clystyrau rhwng ysgolion a’i gilydd |
| **g.** | Archwilio’r posibilrwydd o sefydlu isafswm dyraniad grant. |
| **h.** | Ystyried pwysoli ychwanegol ar gyfrifiadau grant ar gyfer natur wledig lleoliadau. |
| **i.** | Ystyried defnyddio Mynegeion Amddifadedd Lluosog yn lle prydau ysgol am ddim fel mesur o angen. |
| **j.** | Sefydlu fframwaith cenedlaethol i’w ddefnyddio fel arf ar gyfer asesu cyson anghenion lleol y tu allan i’r cohortau sydd â blaenoriaeth. |
| **k.** | Pob ysgol a lleoliad gofal plant i fonitro’r swm o gapasiti ychwanegol, a gofnodir fel nifer cyfwerth ag amser llawn o staff, a maes dysgu a ddyrennir iddynt. |

**Methodoleg**

4. Cafodd y gwerthusiad o’r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ar gyfer dysgwyr 3-16 oed ei gyflawni law yn llaw â’r gwerthusiad o’r £13m ychwanegol a weinyddir trwy’r Grant Gwella Addysg ar gyfer addysg gynnar. Mae gwybodaeth fanylach ar y fethodoleg ar gael yn adran 3.

5. Cyflawnwyd adolygiad llenyddiaeth a gwaith maes, yn cynnwys cyfweliadau ansoddol un-i-un yn bennaf, dros ddau gyfnod. Roedd rhanddeiliaid ysgolion yn cynnwys:

- 39 o brifathrawon
- 29 o randdeiliaid eraill

6. Bu'r gwerthusiad yn dadansoddi data monitro hefyd o arolwg a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru i bob ysgol.

**Cyfyngiadau**

7. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn dibynnu'n drwm ar ymchwil ansoddol ac felly mae meintiau samplau yn fach ar gyfer rhai ffactorau cyd-destunol. Mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi cael eu cyfuno yn yr ymchwil hwn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar draws ffactorau eraill, gan gynnwys y swm o gyllid a dderbyniwyd.

**Beth sy'n gweithio**

8. Dylid targedu cyllid ac adnoddau tuag at grwpiau penodol o ddysgwyr mwy difreintiedig a'u hanghenion dysgu. Mae hyn oherwydd bod dysgwyr sydd â chefndiroedd amrywiol a difreintiedig a'r rheini o gymunedau sydd wedi eu hymyleiddio'n hanesyddol yn llai tebygol o dderbyn y cymorth mae arnynt ei angen gartref.

9. Mae strategaethau effeithiol yn cynnwys cyflymu (canolbwyntio ar addysgu'r hyn sy'n rhaid ei ddysgu yn unig, ar lefel benodol, gyda phwyslais ar sgiliau caffael gwybodaeth), meicroaddysgu (canolbwyntio ar grwpiau bach, gyda dysgu yn digwydd mewn darnau bach mewn ffrâm amser byr), a thiwtora (gellir ystyried tiwtora un-i-un neu grŵp bach fel enghraifft o feicroaddysgu).

10. Mae ar systemau addysg angen gwybodaeth gyfoes, o ansawdd uchel ar ddysgu a llesiant dysgwyr er mwyn galluogi targedu cymorth mewn ffordd hyblyg ac effeithiol.

11. Canfuwyd bod rhoi sylw i'r gweithlu addysg yn rhan bwysig o systemau addysg cryf a'i fod yn ffurfio elfen allweddol o ymatebion llawer o wledydd Ewrop i'r tarfu a achoswyd gan y pandemig. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod athrawon a staff yn cael eu cefnogi wrth ddatblygu a chynnal perthynas gyda theuluoedd a dysgwy, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig.

<u>Dulliau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig</u>

12. Mae Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn wynebu heriau tebyg i Gymru gyda nifer cyfyngedig o ymarferwyr (posibl) ar gael.

- Canolbwyntiodd Lloegr ar ansawdd addysgu ac amser mewn addysg i ddysgwyr. Darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer hyfforddi athrawon ac ar Bremiwm Dal i Fyny i bob dysgwyr, a Phremiwm Adfer cysylltiedig â’r Premiwm Disgyblion i ddysgwyr difreintiedig.
- Cyflogodd Gogledd Iwerddon fwy o athrawon cyflenwi, gan ddarparu addysgu i grwpiau bach trwy’r rhaglen Engage a chanolbwyntio ar iechyd a llesiant emosiynol.
- Darparodd yr Alban gyllid ar gyfer staff cymorth ac addysgu ychwanegol, cefnogwyd cymorth llesiant mewn ysgolion, a daeth Her Cyflawniad yr Alban, a oedd yn bod eisoes, i gynnwys elfennau o adfer wedi Covid.

**Theori Newid**

13. Mae’r Theori Newid cyffredinol (Adran 5) yn gadarn ar lefel genedlaethol gyda chytundeb ymysg yr holl randdeiliaid fod y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn adnabod yr anghenion yn gywir ac yn mynd i’r afael â hwy gyda chamau addas i gyflawni amcanion defnyddiol.

**Canfyddiadau**

Perthynas â phecynnau cymorth eraill

14. Er bod enghreifftiau o grantiau unigol yn gweithio’n dda law yn llaw â’r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (6.1.2) nid ydynt yn gwbl gydgysylltiedig yn y ffordd y cânt eu cyflwyno nac yn eu hamcanion ym mhrofiadau staff gofal plant ac ysgolion.

Dosbarthiad

15. Mae dosbarthiad y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi cael ei benderfynu gan y meini prawf dyrannu (gweler 1.1.2), gan fynd yn uniongyrchol i ysgolion, yn aml heb fawr o ryngweithio â’r awdurdod lleol. O ran y dyraniadau cyllid, roedd rhai o’r ysgolion a gyfwelwyd yn feirniadol o ddefnyddio’r ganran o brydau ysgol am ddim fel penderfynydd o faint o gyllid

y dylai ysgol ei dderbyn, yn sgil effeithiau'r argyfwng costau byw a chyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb (gweler 6.2.4).

Cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol

16. Rhoddodd llawer o awdurdodau lleol ganllawiau bras, a chyngor ar sut i ddefnyddio cyllid, i leoliadau ysgol, a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yr awdurdodau lleol yn gyffredinol hyblyg yn eu dull o gynghori, gan ddibynnu ar amcylchiadau penodol ysgol.

17. Darparwyd cyngor a chymorth pellach gan rai awdurdodau lleol trwy hwyluso cyfarfodydd cychwynnol yn ogystal â thrwy gyfathrebu parhaus â lleoliadau ysgol. Gan awdurdodau lleol eraill, cyfyngedig oedd yr hyn a dderbyniodd ysgolion o ran cyngor, cymorth, neu ganllawiau ychwanegol ynghylch defnyddio'r cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a dderbyniwyd.

Rôl partneriaid

18. Cafodd ysgolion brofiadau cymysg gyda chonsortia/partneriaethau rhanbarthol. Roedd rhai Consortia Rhanbarthol a phartneriaethau addysg yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac ysgolion, ac yn gallu hwyluso rhannu syniadau a'r arferion gorau. Roedd eraill yn ei chael yn anodd cael cefnogaeth gan gonsortia/partneriaethau rhanbarthol. Mae'n debygol fod cyfle wedi cael ei golli i gonsortia rhanbarthol a phartneriaethau ychwanegu gwerth a chynyddu effeithiolrwydd y grantiau.

19. Roedd partneriaid yn feirniadol o'r amser a gymerwyd rhwng cyhoeddi cyllid a'i gyflwyno, gan bwysleisio anawsterau recriwtio staff mewn ffrâm amser byr.

Capasiti ychwanegol a sut y cafodd cyllid ei ddefnyddio

20. Amcangyfrifor bod yr hyn sydd gyfwerth â 2,452 o staff llawn-amser wedi cael eu cyllido gan Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.[1] Staff cymorth sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r swyddi hyn (62.2 y cant) ac wedyn athrawon (29.9 y cant). Ar gyfartaledd mae ysgolion wedi ennill yr hyn sydd gyfwerth ag aelod o staff cymorth llawn-amser (1.05 cyfwerth ag amser llawn) (Cynorthwywyr

[1] Cyflogwyd 1657 cyfwerth ag amser llawn ymysg y 993 o ysgolion a ddychwelodd yr arolwg monitro. Mae'r nifer hwn wedi cael ei gynyddu'n gymesurol i amcangyfrif am 1470 o ysgolion yng Nghymru.

Addysgu, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ac eraill) a hanner yr hyn sydd gyfwerth ag athro llawn-amser (0.5 cyfwerth ag amser llawn). Mae ychydig o amrywiaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac unedau cyfeirio disgyblion (1 athro cyfwerth â llawn amser i bob 1.5 staff cymorth cyfwerth â llawn amser) ac ysgolion arbennig (1 athro cyfwerth â llawn amser i bob 4.05 staff cymorth) (gweler adran 6.5.1).

21. Yn aml, mae ysgolion wedi defnyddio cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i gynyddu'r oriau a weithir gan y staff presennol ar gontractau rhan-amser. Nid ymddengys fod cyllid y rhaglen wedi cael ei ddefnyddio i ariannu defnydd uniongyrchol o athrawon cyflenwi. Mae'r capasiti ychwanegol a grewyd gan y rhaglen wedi defnyddio'r gweithlu athrawon llawn fel ffynhonnell o staff hyfforddedig (6.5.4). Yr ymyraethau mwyaf cyffredin gan y rhaglen mewn ysgolion oedd ar gyfer llythrennedd a llesiant, yn aml yn cael eu cyflwyno mewn cyfnod byr o amser (ee dros un tymor).

22. Mae dulliau anuniongyrchol wedi cael eu defnyddio ar gyfer Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Mae'r capasiti a gynhyrchwyd gan y rhaglen wedi galluogi mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y defnyddir adnoddau staff. Er enghraifft, mewn ysgolion uwchradd, mae staff presennol sydd â mwy o brofiad wedi cael eu defnyddio i gefnogi blynyddoedd 10 ac 11 tra bod cyllid y rhaglen wedi talu am staff i weithio gyda blwyddyn 8.

Gwneud penderfyniadau

23. Mae penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid wedi cael eu harwain yn bennaf gan anghenion dysgwyr gydag adnabyddiaeth yr ysgolion eu hunain o'u dysgwyr fel y brif elfen. Y graddau y mae staff ar gael a all ddiwallu'r anghenion hyn fu'r prif ffactor yn y ffurf o gymorth ychwanegol a ddarparwyd.

24. Cyfyngedig fu'r cydweithio rhwng ysgolion a'i gilydd. Mae rhai awdurdodau lleol wedi rhoi arweiniad pan ddaw i gydgysylltu a chynllunio gyda phrifathrawon a Chonsortia Rhanbarthol / partneriaethau, er i randdeiliaid awdurdodau lleol fynegi rhwystredigaeth gyda'r dull 'munud olaf' o gydgysylltu, yn enwedig gyda Chonsortia Rhanbarthol / partneriaethau.

Gyda'r angen i ddosbarthiadau weithio mewn swigod drosodd bellach, mae awydd cynyddol am fwy o gydweithio a chronni adnoddau.

Galluogwyr a rhwystrau

25. Rhai o'r galluogwyr allweddol yw:

- Y cyfle o dâl ychwanegol ar gael i staff profiadol sy'n gweithio oriau ychwanegol, ac sydd eisoes â pherthynas gyda phlant a staff eraill.
- Perthynas cyn y pandemig rhwng ysgolion a staff cyflenwi.
- Y cyfle i ddefnyddio'r grantiau i gadw athrawon newydd gymhwyso y tu hwnt i gyfnodau eu lleoliad.

26. Mae rhwystrau rhag capasiti ychwanegol yn cynnwys:

- Cystadleuaeth o du sectorau eraill sy'n talu'n well neu'n cynnig mwy o hyblygrwydd, gyda llai o ofynion o ran cymwysterau.
- Y gallu i gynnig contractau tymor byr yn unig pan delir amdanynt gan y grantiau.
- Gall yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r broses o drefnu cyflogi weithiau fod yn hirach na'r ffenest sydd ar gael i wario'r grant.
- Nifer cyfyngedig o staff ar gael sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae gan ysgolion sy'n bellach i ffwrdd oddi wrth ganolfannau trefol boblogaethau llai i recriwtio ohonynt, a symiau llai o grant gan eu bod yn tueddu i fod yn llai eu maint.
- Absenoldebau staff yn parhau yn sgil COVID-19.

Effaith

27. Cafodd y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cyfateb yn fras ag angen sydd wedi ei adnabod yn lleol a chohortau blaenoriaeth cenedlaethol. Heblaw y cohortau blaenoriaeth, nid oedd dim tystiolaeth gan yr ysgolion yr ymgynghorwyd a hwy ar gyfer y gwerthusiad o unrhyw grwpiau yn dangos mwy o angen na'u cyfoedion.

28. Roedd yn arbennig o anodd ailennyn brwdfrydedd dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ar ôl y cyfnod clo; fodd bynnag, mae hyn wedi newid yn y blynyddoedd academaidd dilynol. Dywed ysgolion fod dysgwyr o deuluoedd mwy breintiedig yn gymdeithasol ac economaidd wedi ymddieithrio i raddau mwy na'r disgwyl.

29. Unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig sydd wedi adrodd y lefelau isaf o darfu ar ddatblygiad a chynnydd dysgwyr o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig (adran 6.10.3).

30. Cefnogi llesiant oedd y dull mwyaf effeithiol. Mae'r pwyslais hwn wedi bod yn elfen ganolog o bob maes o ddysgu i gynyddu brwdfrydedd dysgwyr.

31. Yr arferion gorau wrth gynyddu effaith y cyllid yw recriwtio staff sydd â nod clir o alluogi cynyddu capasiti.

<u>Canllawiau a chydymffurfiaeth</u>

32. Mae ysgolion a rhanddeiliaid eraill o'r farn fod y canllawiau gan Lywodraeth Cymru o safon uchel iawn. Yr hyn mae rhanddeiliaid yn ei werthfawrogi'n arbennig yw'r graddau uchel canfyddedig o hyblygrwydd a ganiateir wrth adnabod anghenion lleol a'r strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion i'w diwallu.

**Y dyfodol**

33. Mae'n hanfodol deall y bydd effeithiau Covid-19 ar ddysgwyr, ac ysgolion, yn parhau yn yr hirdymor. Bydd y profiad o darfu ar addysg yn aros gyda phlant, a bydd y gweithlu yn wynebu tarfu parhaus gan absenoldebau Covid-19.

34. Mae'r cynnydd mewn capasiti staff yn sgil y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn gyfan gwbl ddibynnol ar y cyllid grant. Bydd y cynnydd mewn capasiti yn dod i ben pan ddaw'r rhaglen i ben. Nid oes cynllun ar hyn o bryd ymysg ysgolion sy'n ymestyn y tu hwnt i'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

Awduron yr Adroddiad: Geof Andrews, Tom Bajjada, Joseff Howells, Kerry KilBride, Dr Nick Morgan, Maya Richardson, Carly Wise / Miller Research, Heledd Bebb, Nia Bryer / OB3 Meurig Roberts

Adroddiad Ymchwil Llawn: Andrews, G; Bajjada, T; Howells, J; KilBride, K; Morgan, N; Richardson, M; Wise, C; Bebb, H; Bryer, N; Roberts, M; (2023*). Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o Raglen y Blynyddoedd Cynnar Adroddiad Terfynmol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 50/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-recriwtio-adfer-chodi-safonau

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Gangen Ymchwil Ysgolion
Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-872-5